

Dynodi a dad-ddynodi dyfroedd ymdrochi yng Nghymru 2021

Y broses benderfynu, y gofynion o ran tystiolaeth a'r amserlen ar gyfer dynodi a dad-ddynodi dŵr ymdrochi

Bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion ynghylch dynodi a dad-ddynodi dŵr ymdrochi ar unrhyw adeg, gan unrhyw un. Rydym yn awgrymu eich bod yn cysylltu â'ch awdurdod lleol, gan y bydd ganddo wybodaeth ddefnyddiol ynghylch y dŵr ymdrochi'n aml ac mae'n gyfrifol am fodloni gofynion amrywiol dan Gyfarwydddeb 2006/7/EC.

Mae'n bwysig cynnwys cymaint o dystiolaeth a gwybodaeth â phosibl ynghylch nifer yr ymdrochwyr a, lle bo modd, cyfleusterau yn yr ardal a barn y gymuned leol wrth wneud cais am ddynodi neu ddad-ddynodi dŵr ymdrochi.

Nifer yr ymdrochwyr yw'r maen prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio wrth ystyried a yw'n briodol dynodi neu ddad-ddynodi dŵr ymdrochi.

Dynodi

Rydym yn chwilio am dystiolaeth o nifer fawr o ymdrochwyr ar safleoedd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai a mis Medi.

Y diffiniad o 'nifer fawr' yw nifer y mae'r awdurdod cymwys (Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn) yn ei ystyried yn fawr yng nghyd-destun tueddiadau yn y gorffennol, seilwaith neu'r cyfleusterau a ddarperir, neu gamau eraill a gymerir i hybu ymdrochi. Mae'r ffurflen gais yn rhoi rhagor o wybodaeth am y math o dystiolaeth y dylid ei darparu.

Dad-ddynodi

Rydym yn chwilio am dystiolaeth o ddim defnydd/defnydd isel gan ymdrochwyr yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai a mis Medi. Mae'r ffurflen gais yn rhoi rhagor o wybodaeth am y math o dystiolaeth y dylid ei darparu.

Ni fydd ceisiadau am ddad-ddynodi ar sail ansawdd dŵr yn cael eu cymeradwyo.

Y broses a'r amserlen

Bydd unrhyw geisiadau a thystiolaeth a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cydnabod drwy lythyr neu e-bost.

Bydd tystiolaeth yn cael ei hasesu gan Lywodraeth Cymru ac, os bydd yn bodloni gofynion y Gyfarwydddeb, bydd yn cael ei rhoi ar wefan Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgynghori.

Os na fydd y dystiolaeth a roddwyd yn bodloni'r gofynion, bydd yn cael ei dychwelyd a bydd y cais yn cael ei atal dros dro. Byddwn yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i esbonio pa wybodaeth bellach sydd angen ei darparu.

Bydd ceisiadau cyflawn a'r dystiolaeth yn cael eu rhoi ar wefan Llywodraeth Cymru am gyfnod ymgynghori o 6 wythnos. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu'n ffurfiol at Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cwmni dŵr priodol i gael gwybodaeth am y dŵr ymdrochi penodol.

Bydd y penderfyniad terfynol gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar y dystiolaeth a roddwyd a bydd ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi cyn pen 4 wythnos ar ôl diwedd yr ymgynghoriad.

Ar unrhyw adeg yn ystod y broses, gall Llywodraeth Cymru ofyn i'r ymgeisydd ddarparu rhagor o wybodaeth. Yn y sefyllfa hon, gall fod angen aildddechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus pan dderbynnir y dystiolaeth.

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r meini prawf ar gyfer dynodi a dad-ddynodi'n seiliedig ar nifer yr ymdrochwyr. Nid ydym wedi pennu ffigur o ran nifer yr ymdrochwyr, gan fod pob dŵr ymdrochi'n wahanol ac efallai na fydd un ffigur yn addas i bob safle. Rydym yn chwilio am dystiolaeth ynghylch nifer y nofwyr, pobl yn padlo ar lan y dŵr a phobl ar y traeth. Rydym yn ystyried unrhyw un sy'n nofio neu'n padlo yn y dŵr yn ymdrochwr.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddynodi a dad-ddynodi dŵr ymdrochi yng Nghymru a bydd yn seilio penderfyniadau ar y dystiolaeth a roddwyd, yn unol â'r meini prawf a bennwyd ar gyfer dynodi a dad-ddynodi. Os bydd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen dynodi neu ddad-ddynodi, bydd yn cysylltu â'r awdurdod lleol neu'r gweithredwr preifat er mwyn ystyried ei farn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod enwau unrhyw sefydliadau, neu unigolion sy'n cynrychioli sefydliad neu grŵp sy'n argymhell dynodi neu ddad-ddynodi, yn hysbys yn y broses ymgeisio. Byddwn yn diogelu gwybodaeth bersonol aelodau'r cyhoedd sy'n argymhell dynodi neu ddad-ddynodi.

Hysbysu ynghylch Penderfyniad

Bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r ymgeisydd, yr awdurdod lleol perthnasol a'r cwmni dŵr priodol ynghylch y penderfyniad a wneir am ddynodi neu ddad-ddynodi. Bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd a fydd yn datblygu proffil dŵr ymdrochi ar gyfer y safle ac yn mynd ati i drefnu monitro ac amddiffyn y dŵr ymdrochi dynodedig.

Hefyd, rhoddir crynodeb o'r penderfyniad ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) bob blwyddyn am unrhyw ddyfroedd ymdrochi newydd yng Nghymru a ddynodir neu a ddad-ddynodir. Mae DEFRA yn anfon rhestr o'r

holl ddyfroedd ymdrochi dynodedig yn y Deyrnas Unedig at y Comisiwn Ewropeaidd ddechrau mis Mai bob blwyddyn.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rhoi ystyriaeth lawn i'r ceisiadau a dderbynnir a chynnal y prosesau angenrheidiol, bydd ceisiadau am ddynodi a dad-ddynodi a gyflwynir ar ôl **31 Hydref 2019** yn cael eu hystyried ar gyfer eu dynodi ar gyfer **tymor ymdrochi 2021**.